National Institute for Health and Clinical Excellence

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2006

# Bracitherapi cyfradd dogn uchel ar y cyd â radiotherapi paladr allanol i drin canser y brostad sydd heb ymledu

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y driniaeth, ac i'r cyhoedd

Gwybodaeth am Arweiniad Ymyriad NICE 174

**Gwybodaeth archebu**

Gallwch lwytho'r dogfennau canlynol o www.nice.org.uk/IPG174

- y llyfryn hwn
- yr arweiniad llawn ar y driniaeth hon.

I gael copïau o'r arweiniad llawn neu'r wybodaeth i'r cyhoedd wedi eu hargraffu, ffoniwch Linell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 gan ddyfynnu:

- N1039 (arweiniad llawn)
- N1040 (gwybodaeth i'r cyhoedd).

**National Institute for**
**Health and Clinical Excellence**
MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

www.nice.org.uk

ISBN 1-84629-214-X

© National Institute for Health and Clinical Excellence, May 2006. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Ynglŷn â'r wybodaeth hon** | **4** |
| **Ynglŷn â'r driniaeth** | **5** |
| **Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio** | **6** |
| **Risgiau a phroblemau posibl gyda'r driniaeth** | **7** |
| **Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?** | **8** |
| **Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi** | **9** |
| **Gwybodaeth bellach** | **10** |

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu arweiniad cenedlaethol ar hybu iechyd da ac atal a thrin iechyd gwael. Un o rolau NICE yw cynhyrchu arweiniad (argymhellion) ar p'un a yw ymyriadau yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio fel triniaeth arferol yn y GIG yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad a gyhoeddodd NICE ar driniaeth a elwir yn bracitherapi cyfradd dogn uchel ar y cyd â radiotherapi paladr allanol. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn mae'r driniaeth yn ei olygu - dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar ba un a yw bracitherapi cyfradd dogn uchel ar y cyd â radiotherapi paladr allanol yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio fel triniaeth arferol i drin canser y brostad sydd heb ymledu.

Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw bracitherapi cyfradd dogn uchel ar y cyd â radiotherapi paladr allanol a pha mor dda y mae'n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a'r cleifion a'r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar 'ymyriadau' (gweler 'Gwybodaeth bellach' ar dudalen 10).

**Ynglŷn â'r driniaeth**

Os canfyddir canser yn chwarren y brostad cyn iddo ledaenu i rannau eraill o'r corff, fe'i disgrifir yn ganser sydd heb ymledu ('localised'). Dim ond i drin canser y brostad sydd heb ymledu y defnyddir y driniaeth y mae NICE wedi ei hystyried. Gellir trin canser y brostad sydd heb ymledu drwy lawdriniaeth i dynnu chwarren y brostad yn gyfan gwbl (prostadectomi radical), drwy ymbelydredd (radiotherapi) i ddinistrio'r canser, neu drwy 'aros a goruchwylio'. Mae aros a goruchwylio yn golygu cael archwiliadau a phrofion gwaed rheolaidd ond dim triniaeth oni bai bod y canser yn gwaethygu.

Pan gaiff ymbelydredd ei anelu at ganser o du allan i'r corff, gelwir hyn yn radiotherapi paladr allanol, a dalfyrrir i EBRT. Mae bracitherapi yn fath o radiotherapi a anelir at y canser o'r tu mewn i'r rhan o'r corff yr effeithir arni. Ar gyfer hyn, rhoddir sylwedd sy'n rhyddhau ymbelydredd yn y rhan o'r corff lle y lleolir y canser. Bydd yr ymbelydredd hwn yn trin y canser yn fewnol.

I drin canser y brostad drwy fracitherapi, rhoddir tiwbiau tenau yn cynnwys ymbelydredd yn y brostad trwy'r croen y tu ôl i'r sgrotwm. Mae cyfrifiadur yn mesur faint o ymbelydredd y mae angen ei ryddhau. Tynnir y tiwbiau pan fo digon o ymbelydredd wedi'i roi mewn man penodol.

Mae defnyddio'r dull hwn yn golygu bod llai o niwed ymbelydredd i rannau iach y corff o amgylch y rhan a gaiff ei thrin, fel y perfedd isaf a'r wrethra.

Gellir rhoi bracitherapi yn gyflym mewn dogn uchel, a elwir yn fracitherapi cyfradd dogn uchel (neu HDR), neu'n arafach dros gyfnod hirach (bracitherapi cyfradd dogn isel). Weithiau cyfunir bracitherapi cyfradd dogn uchel, y driniaeth newydd y mae NICE wedi'i hystyried, â radiotherapi paladr allanol i ddarparu triniaeth radiotherapi lawn.

# Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio

## Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Mewn un astudiaeth a ystyriodd yr hyn a ddigwyddodd i ddynion gyda chanser y brostad sydd heb ymledu a gafodd eu trin â bracitherapi cyfradd dogn uchel a radiotherapi paladr allanol, bu i 86% o'r dynion (hynny yw 86 o bob 100 o'r dynion) fyw am o leiaf 5 mlynedd. Yn yr un astudiaeth, roedd 54% o'r dynion a gafodd eu trin â radiotherapi paladr allanol yn unig yn fyw ar ôl 5 mlynedd.

Mewn astudiaethau a ystyriodd yr hyn a ddigwyddodd i ddynion gyda chanser y brostad sydd heb ymledu a gafodd eu trin â bracitherapi cyfradd dogn uchel ar y cyd â radiotherapi paladr allanol, roedd 85% i 93% o'r dynion yn fyw o hyd ar ôl 5 mlynedd. Mewn astudiaeth o 50 o ddynion, roedd 42 (84%) a gafodd eu trin gyda'r cyfuniad yn fyw o hyd ar ôl mwy na 7 mlynedd. Mewn astudiaeth fawr o 611 o ddynion, roedd 65% yn fyw o hyd ar ôl 10 mlynedd.

Gellir profi llwyddiant trin canser y brostad drwy fesur cemegyn o'r enw antigen penodol i'r brostad (neu PSA) sy'n bresennol mewn symiau bach iawn yn y gwaed. Po isaf yw lefel y cemegyn hwn, y gorau y rheolir y canser.

Mewn un astudiaeth 5 mlynedd ar ôl i'r dynion gael eu trin â bracitherapi cyfradd dogn uchel ar y cyd â radiotherapi paladr allanol, roedd gan tua dwy ran o dair o'r dynion lefelau PSA a ddangosodd fod y canser wedi'i reoli'n dda. Mewn dynion a gafodd eu trin â radiotherapi paladr allanol yn unig, roedd gan lai na hanner y dynion lefelau PSA a ddangosodd fod y canser wedi'i reoli'n dda. Roedd yr archwiliadau 3 blynedd ar PSA ar gyfer dynion a gafodd eu trin â bracitherapi cyfradd dogn uchel yn debyg i'r rheini a gafodd fracitherapi cyfradd dogn isel.

Dangosodd astudiaethau eraill fod lefelau PSA yn dangos bod y canser wedi'i reoli'n dda yn y rhan fwyaf o ddynion ar ôl o leiaf 4 neu 5 mlynedd ar ôl iddynt gael bracitherapi cyfradd dogn uchel a radiotherapi paladr allanol.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Nododd yr arbenigwyr y gwelliannau yn y cyfraddau goroesi pan roddwyd bracitherapi cyfradd dogn uchel i ddynion ynghyd â radiotherapi paladr allanol ar gyfer canser y brostad sydd heb ymledu. Nodwyd ganddynt fod mesuriadau PSA hefyd yn dangos bod y driniaeth gyfun hon yn llwyddiannus.

## Risgiau a phroblemau posibl gyda'r driniaeth

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Mae risg o analluedd (problemau o ran cael a chynnal codiad wrth gael rhyw) ar ôl i ganser y brostad gael ei drin. Ar ôl bracitherapi cyfradd dogn uchel, yn achos dynion nad oedd ganddynt broblemau ymlaen llaw, cofnododd astudiaethau gwahanol hyn i raddau gwahanol. Canfu un astudiaeth yr effeithiwyd ar 30% o'r dynion 30 mis ar ôl y driniaeth. Dywedodd ail astudiaeth yr effeithiwyd ar 45% o'r dynion ar ôl 3 blynedd. Dywedodd astudiaeth arall yr effeithiwyd ar 14% o'r dynion ar ôl 5 blynedd a dywedodd astudiaeth arall fod 76% o'r dynion yn cael problemau ar ôl 7 mlynedd. (Gallai'r ffaith bod diffiniad pob astudiaeth o 'analluedd' yn amrywio rhwng yr astudiaethau esbonio pam bod y canrannau hyn mor wahanol.)

Roedd yr wrethra wedi culhau yn achos rhwng 1.5% a 7% o'r dynion a gafodd eu trin â bracitherapi cyfradd dogn uchel mewn tair astudiaeth o 161 i 230 o ddynion.

Roedd 11% o'r dynion a gafodd eu trin â bracitherapi cyfradd dogn uchel mewn un astudiaeth yn gollwng wrin (methu â dal dŵr), ac roedd hyn wedi dod yn broblem barhaol yn 5% o'r dynion ar ôl 3 blynedd. Digwyddodd rhywfaint o ollwng yn achos 3% o'r dynion (7 allan o 230) mewn un astudiaeth ond yn achos llai nag 1% (1 allan o 200) mewn astudiaeth arall.

Dangosodd astudiaeth a edrychodd ar 108 o ddynion 5 mlynedd ar ôl bracitherapi cyfradd dogn uchel nad oedd gan 86% o'r rheini a oroesodd broblemau o ran gollwng wrin.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr fod gan y driniaeth lai o sgil-effeithiau o'i chymharu â thriniaethau eraill. Fodd bynnag, nododd yr arbenigwyr y gallai dynion sy'n cael y driniaeth hon brofi sawl effaith nas dymunir yn rhannau'r corff ger y brostad. Yn ogystal â'r rheini y soniwyd amdanynt eisoes, gallent brofi llid yr wrethra, methiant sydyn i allu troethi (pasio wrin) pan fo'r bledren yn llawn, gwaed yn yr wrin neu yn yr hylif a alldeflir, llid y rectwm gan achosi rhwymedd, niwed i'r bledren neu'r perfedd isaf, anaf i'r cyhyr sy'n agor ac yn cau'r anws, neu gallai llwybr annormal (ffistwla) ddatblygu rhwng y perfedd â'r wrethra.

### Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar fracitherapi cyfradd dogn uchel ar y cyd â radiotherapi paladr allanol. Mae wedi argymell y dylai meddygon a fydd yn defnyddio'r driniaeth hon ar gyfer pobl sydd â chanser y brostad sydd heb ymledu sicrhau:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno (rhoi caniatâd) i gael y driniaeth,
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Mae NICE hefyd wedi dweud y dylai fod trefniadau ar waith fel bod y meddygon a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol iawn yn ymwneud â thriniaeth a gofal y claf.

### Sylwadau eraill gan NICE

Nid yw'r argymhellion hyn yn berthnasol i'r defnydd o fracitherapi cyfradd dogn uchel ar ei ben ei hun. Maent ond yn berthnasol i'r broses o gyfuno'r driniaeth â radiotherapi paladr allanol.

## Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai bod eich meddyg wedi cynnig bracitherapi cyfradd dogn uchel (ar y cyd â radiotherapi paladr allanol) i chi i drin canser y brostad sydd heb ymledu. Mae NICE wedi ystyried y driniaeth hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y driniaeth yn ddigon diogel ac yn gweithio yn ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Er hynny, dylech ddeall manteision a risgiau bracitherapi cyfradd dogn uchel ar y cyd â radiotherapi paladr allanol cyn i chi gytuno i'w gael. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai bod rhai o'r rhain wedi'u disgrifio uchod.

## Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Mae gwybodaeth bellach am NICE, y Rhaglen Ymyriadau a'r arweiniad llawn ar fracitherapi cyfradd dogn uchel ar y cyd â radiotherapi paladr allanol i drin canser y brostad sydd heb ymledu a gyhoeddwyd i'r GIG ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Mae NICE wedi cyhoeddi arweiniad hefyd ar fracitherapi cyfradd dogn isel i drin canser y brostad sydd heb ymledu (www.nice.org.uk/IPG132).

Os oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch gael mwy o wybodaeth am ganser y brostad ar wefan Galw Iechyd Cymru (www.nhsdirect.wales.nhs.uk). Gallwch ffonio Galw Iechyd Cymru hefyd ar 0845 46 47.

**National Institute for**
**Health and Clinical Excellence**
MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

www.nice.org.uk

N1040 1P Mai 06

ISBN 1-84629-214-X